

Taflen Ffeithiau

Trafferthion Ariannol

Allwn ni helpu os ydych yn cael trafferth talu'ch Rhent neu'ch Morgais?

Gallwn, ond mae'n bwysig eich bod yn gweithredu'n gyflym. Mae camau y gallwch eu cymryd er mwyn osgoi mwy o ddyled. Os na fyddwch yn gweithredu, efallai y cewch Rybudd gan eich Landlord, neu efallai bydd eich Rhoddwr Morgeisi yn cychwyn Achos Cymryd Meddiant.



Cynyddu Eich Incwm

- Cyllido - Defnyddiwch ein Ffurflen Ddatgan er mwyn cyfrifo'ch incwm a'ch gwariant. Efallai bod manau lle gallwch wneud arbedion drwy dorri yn ôl ar bethau Nad ydynt yn Angenrheidiol.
- Ail Swydd – Er nad yw hyn yn addas i bawb, mae'n ffordd dda o gynyddu'ch enillion ac mae'n gymorth i dalu biliau.
- Hawlio Buddion – Gwiriwch eich bod yn derbyn yr holl fuddion yr ydych yn gymwys amdanynt. Bydd y Siop un Stop yn edrych mewn i'ch Budd-Dal Tai a'ch hawliau Treth Cyngor. Gall staff yn y Ganolfan Waith leol edrych mewn i unrhyw fuddion eraill y gallech fod yn gymwys i'w derbyn.
- Oedolion Eraill - oes unrhyw un arall sy'n byw efo chi a allai gyfrannu tuag at y Rhent, y Morgais, ac unrhyw filiau cartref eraill?
- Biliau Tanwydd – Os ydych ar incwm isel, mae'n bosib y gall eich darparwr ynni helpu os ydych ag ôl-ddyledion ar eich biliau Nwy a Thrydan. Rhestrwch eich dyledion a nodwch nhw mewn trefn blaenoriaeth
- Cyfrifwch faint allwch chi fforddio ei dalu yn ôl i bob credydwr (person neu sefydliad y mae arnoch arian iddynt)
- Hawlio Buddion / chwilio am gyngor gan asiantaeth gyngor dyledion – Siaradwch gyda chynghorydd annibynnol am ddim. Gall eich Swyddog Datrysiaidau Tai eich atgyfeirio at ein Swyddog Cyngor ar Bopeth mewnol er mwyn eich helpu.
-

Opsionau Morgais

- Newid eich Cynllun Talu – Efallai y bydd eich Rhoddwr Morgeisi yn caniatáu ichi wneud newidiadau i'ch taliadau am gyfnod byr (Graddau Llog is, Llog yn unig, Lleihau'r swm rydych wedi ei fenthyg, ymestyn y cyfnod talu'n ôl)
- Newid eich Rhoddwr Morgeisi – gallai rhoddwyr eraill gynnig Morgais amgen a fyddai'n fwy addas ar eich cyfer chi. Cofiwch y bydd rhaid ichi dalu unrhyw ôl-ddyledion sydd gennych gyda'ch rhoddwr presennol. Efallai hefyd y bydd ffi am newid rhoddwr.
- Sicrhewch eich bod yn gwneud taliadau - dyfeisiwch gyllideb gartref, gan dorri'ch gwariant ac edrych ar ffyrdd o gynyddu'ch incwm. Os dangoswch i'r rhoddwr eich bod wedi ymrwymo i dalu cymaint ag y gallwch dylent roi mwy o amser ichi ddatrys eich materion ariannol
- Efallai y byddwch yn gymwys am gefnogaeth gan y Cynllun Cefnogaeth i Forgeisi.

Beth yw Cymorth ar gyfer Llog ar Forgais?

Dyma gynllun lle mae'r Llywodraeth yn ymyrryd ac yn talu llog ar y £200,000 cyntaf o'r morgais sydd gennych ar ôl, neu ar £100,000 os ydych yn derbyn Credyd Pensiwn ar gyfer yr amser nad ydych yn gallu eu fforddio. Mae'r lefel llog yn cael ei osod gan y llywodraeth.



Pwy sy'n gymwys ar gyfer y cynllun?

Rhaid ichi fod yn derbyn:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith ar sail Incwm
- Lwfans Cymorth Cyflogaeth ar sail incwm
- Credyd Pensiwn

Felly os ydych wedi eich gwneud yn ddi-waith yn ddiweddar neu wedi gweld gostyngiad mewn incwm, mae'n bwysig ichi arwyddo mlaen neu ni fyddwch yn gymwys ar gyfer y cynllun. Ar hyn o bryd mae cymorth gan y cynllun yn cychwyn 13 wythnos ar ôl ichi hawlio'r budd-dal cychwynnol (heblaw am greddyd Credyd Pensiwn ble gallwch hawlio yn syth). Fodd bynnag, mae wedi ei gyhoeddi y bydd y cyfnod aros am y cynllun yn cael ei gynyddu i 39 wythnos o Ebrill 2016 ymlaen. Bydd yr arian yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'ch rhoddwr. Asesir eich cymhwysedd i'r cynllun yn awtomatig pan fyddwch yn gwneud cais am fudd-dal ar sail incwm. Mae'n weithredol yng Nghymru, Lloegr, Yr Alban, ac mae system debyg yn bodoli yng Ngogledd Iwerddon.

Am ba hyd gall y cymorth hwn fod ar gael?

Os ydych yn hawlio lwfans ceisio gwaith, yna gallwch gael cymorth am hyd at ddwy flynedd. Does dim cyfyngiad ar gyfer pobl sy'n derbyn buddion eraill.

Mae'r Cymorth ar gyfer Llog ar Forgais yn dod i ben pan fydd eich buddion yn dod i ben – fel arfer mae hyn pan fyddwch yn dychwelyd i weithio neu'n cychwyn gweithio oriau ychwanegol er mwyn ennill mwy. Fodd bynnag, efallai y gallwch hawlio cymorth Ychwanegiad Llog Morgais (MIRO) er mwyn eich cynorthwyo i wneud y newid.

Mae MIRO yn para 4 wythnos, a bydd yr un faint â'r Cymorth ar gyfer Llog ar Forgais a dalwyd, ond y gwahaniaeth mawr yw bod y MIRO yn cael ei dalu i chi ac nid i'r rhoddwr.

Pwy sydd ddim yn gallu hawlio cymorth ar gyfer Cymorth Llog Morgais?

Ni allwch hawlio cymorth os oes gennych fwy na £16,000 mewn arbedion neu os ydych chi berchen mwy nag un eiddo preswyl.

Newidiadau mawr i'r Cymorth ar gyfer Llog ar Forgais o 2016. Ar hyn o bryd budd-dal yw'r Cymorth ar gyfer Llog ar Forgais. Fodd bynnag, o ganlyniad i gynlluniau a gyhoeddwyd yng Nghyllideb 2015, mae'r Llywodraeth yn bwriadu ei newid i fenthyciad.

Beth mae hyn yn ei olygu mewn gwirionedd yw y byddai'n rhaid ichi ad-dalu'r swm a dalodd y Llywodraeth tuag at eich morgais unai pan fyddwch yn dychwelyd i'r gwaith, neu pan fyddwch yn gwerthu'r tŷ. Bydd llog ar y benthyciadau hyn hefyd, er mae'n debyg y bydd y raddfa yn eithaf isel.



Cymorth Ychwanegol yng Nghymru, yn darparu cymorth ychwanegol i berchnogion tai gadw'u cartrefi.

Anelir y *Cynllun Achub Morgeisi* (efallai bod ganddo enw gwahanol mewn awdurdodau eraill) at deuluoedd lle mae'r incwm blynyddol o dan £60,000, lle mae ganddynt "anghenion blaenoriaeth" (rhywun yn feichiog, yn hen, yn anabl, neu blant ifanc yn byw yno) a lle maent mewn peryg o golli eu cartref. Os ydych yn gymwys ar gyfer y Cynllun Achub Morgeisi, mae dau opsiwn...

- Perchnogaeth lwyr o'r eiddo
- Cynllun Cymorth Prynu (ar gael pan ariennir y Cynllun gan Lywodraeth Cymru yn unig)

Cyberchnogaeth (ar gael pan ariennir y cynllun yn unigol gan Grŵp Cynefin yn unig, er enghraifft neu a ariennir gan Lywodraeth Cymru)

Os yw Grŵp Cynefin yn fodlon y gall fod o gymorth, bydd yn cysylltu gyda rhoddwr morgeisi'r perchennog (a rhoddwyr unrhyw ddyledion eraill sydd wedi eu sicrhau ar yr eiddo.) Pan fydd achos cymryd meddiant ar fin cychwyn, bydd Grŵp Cynefin yn darparu cadarnhad ysgrifenedig bod cais wedi ei dderbyn o dan y Cynllun Achub Morgeisi a gall y perchennog wedyn gyflwyno hwnnw mewn gwrandawriad cymryd meddiant. Fel arfer bydd y ddogfen hon yn ddigon i ohirio'r gwrandawriad neu ar gyfer atal y gorchymyn ildio meddiant.

Nodwch fod y Cynllun Achub Morgeisi yn ddibynnol ar argaeledd cyllid.

Am fwy o wybodaeth ar Gynllun Achub Morgeisi yng Nghonwy, cysylltwch â Grŵp Cynefin ar 0300 111 2122.

Y Protocol Cyn-Gweithredu gan Roddwyr Morgeisi (ar gael yn Lloegr a Chymru yn unig)

Mae'r cynllun hwn yn bodoli er mwyn sicrhau bod y rhoddwr wedi ystyried pob opsiwn arall cyn ceisio adfeddiannu'r eiddo megis:

- Rhaid i'ch rhoddwr anfon gwybodaeth gyfreithiol atoch cyn adfeddiannu'ch cartref a gadael ichi wybod faint o arian sydd gennych ar ôl ar eich morgais.
- Rhaid ystyried unrhyw gais rhesymol gennych chi i newid y dyddiad neu'r modd y byddwch yn talu
- Oedi cyn gweithredu os yw'ch eiddo ar werth
- Os ydych wedi ceisio dod i gytundeb am newidiadau gyda'ch rhoddwr a'u bod yn gwrthod, rhaid iddyn nhw roi gwybod ichi yn ysgrifenedig (o fewn 10 diwrnod o wneud y cais) yn amlinellu eu rhesymau dros wrthod eich cais.
- Os ydych wedi dod i gytundeb gyda'ch rhoddwr ac rydych wedi methu a chadw i'r cytundeb, rhaid i'ch rhoddwr roi rhybudd ysgrifenedig ichi os ydynt yn bwriadu cychwyn prosesau cyfreithiol, gan roi o leiaf 15 diwrnod gwaith o rybudd ichi o'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud.

Efallai y byddwch yn gweld bod eich gwariant yn parhau yn rhy uchel. Yn ystod eich cyfarfod gyda'ch Swyddog Datrysiadau Tai, byddwch yn trafod tai amgen, fforddiadwy, a sut i gael mynediad atynt.

Yn fwy, os bydd eich sefyllfa'n gwaethygu mwy, byddwch yn gysylltu â ni i gwybod i ni.



Oes unrhyw gymorth ar gael os oes gen i ôl-ddyledion rhent?

Gall bod ag ôl-ddyledion rhent fod yn bryderus, ond peidiwch ag anwybyddu'r sefyllfa. Mae ôl-ddyledion rhent yn ddyled flaenoriaeth sy'n golygu bod goblygiadau methu â delio gyda nhw'n ddifrifol – mae peryg y gallech golli'ch cartref.

Gwiriwch eich bod mewn cymaint o ddyled ag mae'r landlord yn ei ddweud. Cysylltwch â'ch landlord cyn gynted ag y gallwch er mwyn egluro'ch sefyllfa ac i wneud trefniadau i ad-dalu'r ôl-ddyledion.

Efallai na fyddwch yn gyfrifol am yr holl ôl-ddyledion os:

- Nad chi yw'r tenant neu mai rhywun arall sy'n byw gyda chi sydd ag ôl-ddyledion.
- Nad yw eich landlord wedi cofnodi'r rhent ydych chi wedi ei dalu yn gywir.
- Wnaethoch chi gymryd y denantiaeth drosodd gan rywun a bod eich landlord yn ceisio codi rhent arnoch ers cyn ichi gymryd y denantiaeth.

Os na allwch dalu'r rhent, os ydych wedi methu taliadau rhent neu eich bod yn poeni nad yw'ch taliadau yn cael eu gwneud, rhowch drefn ar bethau cyn gynted ag y gallwch. Hyd yn oed os oes gennych ddyledion eraill, sicrhewch eich bod yn blaenoriaethu ôl-ddyledion rhent.

Hyd yn oed os ydych eisoes yn derbyn Budd-dal Tai, os nad yw gymaint â'ch rhent efallai gallwch gael arian ychwanegol – sef y Taliad Tai yn ôl Disgresiwn (DHP).

Mae nifer o asiantaethau a allai fod o gymorth:



**Housing Debt
Helpline Wales**
Llinell Gymorth
Dyledion Tai Cymru

0800 107 1340

StepChange
Debt Charity

☎ 0800 138 1111

💻 www.stepchange.org



Hawliau Lles

Gwybodaeth a chyngor ar fuddion, hawliau ayb.

☎ **01639 685247**

💻 www.npt.gov.uk





Budd-dal Tai

☎ 01492 576491

💻 www.conwy.gov.uk

jobcentreplus

☎ **0845 6043719**

💻 www.jobcentreplus.gov.uk

📍 29 - 31 Stryd y Capel, Llandudno, Conwy



☎ 01492 580028

💻 www.northwalescu.co.uk

📍 144 Ffordd Conwy, Cyffordd Llandudno, Conwy, LL31 9ND

Shelter Cymru

☎ 01792 469400

💻 www.sheltercymru.org.uk

📍 Uned 5, Adeilad yr Orsaf, Stryd Bodfor, Y Rhyl LL18 1AT

**citizens
advice**

Cyngor ar Bopeth

☎ 0344 477 2020

💻 www.citizensadvice.org.uk

📍 Eryl Wen, Eryl Place, Llandudno, Conwy LL30 2TX



Gwasanaeth Cyngori Ariannol

Cyngor ariannol diduedd am ddim, wedi ei gychwyn gan y llywodraeth

Cyngor a llyfrynnau i helpu i wella'ch cyllid

Offer a chyfrifianellau i'ch cynorthwyo i gadw at gyllideb ac i gynllunio'n ariannol

Cefnogaeth bersonol, dros y ffôn ac ar-lein

☎ 0300 500 5000

